



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi Dosbarthu Dogfennau Cronfa Bensiwn Gwynedd

1. Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer dosbarthu dogfennau i aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd, gan sicrhau cyfathrebu effeithlon a diogel wrth hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol.

2. Cwmpas y polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd.

3. Datganiad Polisi

Nod Cronfa Bensiwn Gwynedd yw defnyddio dulliau cyfathrebu digidol i wella effeithlonrwydd, lleihau effaith amgylcheddol, a darparu gwybodaeth amserol i aelodau. Mae'r polisi hwn yn nodi'r amodau y bydd dogfennau'n cael eu postio i gyfrifon Fy Mhensiwn Ar-lein yr aelod neu eu hanfon drwy'r post.

4. Canllawiau Dosbarthu Dogfennau

- **Dosbarthiad Digidol:** Bydd unrhyw ddogfennau nad oes angen ymateb arnynt yn cael eu lanlwytho i gyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein yr aelod os yw'r aelod wedi mewngofnodi i'r safle o fewn y chwe mis diwethaf. Bydd e-bost yn cael ei anfon at yr aelod pryd bynnag y bydd dogfen newydd ar gael i'w gweld.
- **Dosbarthiad trwy'r post:** Os yw dogfen yn gofyn am lenwi ffurflen a'i dychwelyd, neu os nad yw aelod wedi mewngofnodi i'w gyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein yn ystod y 6 mis diwethaf, anfonir copi caled o'r llythyr at yr aelod drwy'r post.

Bydd yr holl bost a anfonir allan gan y Gronfa Bensiwn yn cael ei anfon trwy bost ail ddosbarth.

5. Datblygiadau yn y Dyfodol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i ddatblygu ffurflenni ar-lein er mwyn gallu uwchlwytho mwy o ddogfennau ar-lein. Nod y fenter hon yw lleihau ein hól troed carbon a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n gyflymach i aelodau.

6. Cyfrifoldebau Aelodau

- **Mynediad Cyfrif Ar-lein:** Anogir aelodau i fewngofnodi i'w cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein yn rheolaidd er mwyn cael gwybod a chael mynediad at ddogfennau pwysig.
- **Manylion cyswllt:** Dylai aelodau sicrhau bod eu manylion cyswllt yn gyfredol i dderbyn hysbysiadau amserol am bostiadau dogfennau.

7. Gweithredu ac Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol. Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi yn cael eu cyfleu i'r aelodau mewn modd amserol.

8. Manylion Cyswllt

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwngwynedd.llyw.cuymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: